**'We are looking out for a Manager . . . We are likely to amalgamate *Herald* and *Genedl* Companies . . . Are you open to tread with us?'**

Er y defnydd o'r cyntaf lluosog, W. J. Parry ar ei ben ei hun, oedd yn cynnal y trafodaethau ar ran y 'Wasg Newyddiadurol Genedlaethol Gymreig', perchnogion y papurau.

Dangosodd lawer o ddyfalbarhad yn ystod 1891, daliodd ati i dawelu'i gyfarwyddwyr nerfus, daliodd ati i sgwennu'n gyson iawn at Lloyd George, daliodd i drafod efo Coplestone, a daliodd ati hefyd i rwydo Beriah Gwynfe Evans fesul tipyn bach.

Ni ellir llai na meddwl bod ei ddisgrifiadau ef o bethau yng Nghaernarfon yn gamarweiniol o rosynnog, a'i fod yn ceisio dylanwadu ar Beriah Evans trwy fanteisio ar y cyswllt cudd efo Lloyd George:

**'the amalgamation would enable us to bring them out as Dailies'**

Hyn mewn llythyr yng nghanol Awst pryd yr oedd pethau'n edrych yn bur dywyll am unrhyw briodas rhwng y cwmnïau.

Serch hynny, fe gafodd W. J. Parry gryn hwb i'w ymgyrch yn haf 1891 pan ddaeth Lloyd George yn uniongyrchol i ganol y trafodaethau. Roedd ef yn awyddus am fynd â'r maen i'r wal, a threfnodd i gyfarfod â Coplestone.

Ond gohirio wnaeth dyn yr *Herald*. Ac oedi eto. A'r oedi hwnnw, ym marn y cyfarwyddwyr a W. J. Parry, yn niweidio papurau'r *Genedl*. Roedd eu cylchrediad yn gostwng.

* * * *

YNA, argyfwng arall. Penderfynodd David Edwards, rheolwr cyffredinol y swyddfa, a golygydd achlysurol *Y Genedl* ei fod am adael y cwmni a mynd i weithio yn Lloegr yn aelod o staff y *Nottingham Express*. Yn sydyn roedd y papurau heb reolwr profiadol, ac fe ymddengys i'r cyfarwyddwyr droi at John Thomas, 'Eifionydd', cysodydd galluog, fel gweinyddwr dros dro. Mae llythyrau W. J. Parry ato ef yn dra thrahaus.

Yn ei flaen yr aeth W. J. Parry.

**'I never give anything like this up, but continue to peg at it until it comes right',**

ysgrifennai at Lloyd George yn Awst '91. Mae'n amlwg fod yr iau yn drwm iawn ar ei ysgwyddau — roedd miloedd o bunnau a sicrwydd gwaith ar gyfer rhai dwsinau o grefftwyr a newyddiadurwyr yn dibynnu arno ef.

Llwyddai i dawelu'i gyfarwyddwyr yn rheolaidd, ond yr oedd y rheini mor bryderus erbyn haf diweddar '91 fel iddynt fynnu cael ateb pendant o du'r *Herald*. Yn y cyfnod dyrys hwn yr oedd Lloyd George yn fodlon iawn trafod pethau'n gyson efo W. J. Parry.

Argyfwng newydd. Cynlluniau newydd gan W. J. Parry. Roedd Coplestone yn parhau i droi a throelli. Rhaid oedd taflu syniad newydd i mewn i'r pair. Aeth si drwy'r ddwy swyddfa gyhoeddi fod W. J. Parry yn bwriadu lansio cyfres o bapurau hwyrol yng Nghaernarfon os unid y *Genedl* a'r *Herald*.

Roedd y pwysau ar ysgwyddau Coplestone am ychydig rŵan. Na, doedd o ddim o blaid papurau hwyrol, doedd yna ddim digon o farchnad ar eu cyfer. Ond, ond efallai, efallai y byddai modd cyhoeddi'r papur hwyrol ar nos Lun —

**'In this manner you would have what in reality would be a daily paper without losing its old character and its old advertising connection',**

oedd ei sylwadau wrth ateb W. J. Parry.

* * * *

OND troediwr cyfrwys pennau'r cloddiau oedd Coplestone yn yr holl drafodaethau hyn. Ac yn sydyn fe chwalodd yr holl sôn am uno, newidiodd ei delerau yng nghanol Medi 1891 a chollwyd y cyfle i fanteisio ar y gefnogaeth ariannol yr oedd Lloyd George yn ei threfnu ar gyfer *Y Genedl* a'r briodas.

Gŵr chwerw iawn oedd W. J. Parry wrth ysgrifennu at Lloyd George ym mis Hydref, pryd y cyhuddwyd Coplestone o chwarae castiau efo'r *Genedl* er mwyn cryfhau busnes *Yr Herald*.

Ymddengys bod sail yn ei gyhuddiadau. Disgynnodd cylchrediad wythnosol y papurau Cymraeg yn sylweddol yn ystod misoedd y trafodaethau efo Coplestone:

| | *31/12/89* | *30/6/91* |
|---|---|---|
| *Y Genedl* | 9,745 | 9,410 |
| *Y Werin* | 8,883 | 8,265 |
| *N. W. Obs. Express* | 1,532 | 1,592 |

Bellach roedd gobeithion W. J. Parry ar gryfhau economi'r *Genedl* trwy gael y cyfarwyddwyr presennol i uno ym menter cwmni newydd, a thrwy sicrhau gwasanaeth rheolwr newydd egnïol ar gyfer y papurau.

**'We must work up our concern. We could play out the *Herald* in a very short time',**

meddai wrth ohebu â Lloyd George, ac ail-adroddodd ei fwriad o ymladd Coplestone mewn llythyr arall ym mis Hydref, y tro hwn at John Davies, 'Gwyneddon', yn swyddfa'r *Genedl*:

**'we shall fight the *Herald* tooth and nail . . . they will die hard . . . we can beat them.'**

Bu Lloyd George a W. J. Parry wrthi'n ddyfal yn ceisio sicrhau cefnogwyr ariannol ar gyfer dyfodol papurau'r *Genedl*. D. W. Davies, argraffydd a gŵr busnes yng Nghaernarfon oedd piau'r swyddfa argraffu a'i pheiriannau — roedd angen £3,500 i brynu'r rhain.

Yna datganodd Lloyd George ei fod ef am brynu papurau'r *Genedl*, a dyna a fu. Erbyn diwedd Rhagfyr 1891 yr oedd Lloyd George a W. J. Parry yn rhan o gwmni newydd — 'Y Wasg Genedlaethol Gymreig'. Y ddau ohonyn nhw a Tom Ellis, S. T. Evans, Herbert Lewis 'and some other well known Welsh Nationalists — oedd perchnogion newydd papurau'r *Genedl*.

* * * *

YSGRIFENNODD W. J. Parry at Beriah Evans ar ddydd Nadolig 1891 gan fanylu ar y cwmni newydd. Byddai tri i bump ar fwrdd y cyfarwyddwyr, a byddai dau o staff olygyddol y *Genedl* yn cael eu diswyddo — gan gynnwys John Thomas, 'Eifionydd'.

Mae'n amlwg na fu ei stiwardiaeth fregus ef yn llwyddiant. Ac eto mae'n werth cofio i Eifionydd aros efo'r *Genedl* — bu'n ei golygu am blwc ar ddechrau'r ganrif newydd. John Owen Jones, 'Ap Ffarmwr', yr undebwr amaethyddol o Fôn a oedd yn aelod o'r staff ers ychydig flynyddoedd, fyddai'r ail olygydd ar gyfer y papurau.

A fyddai Beriah Evans yn ymuno â'r fenter newydd fel prif olygydd a rheolwr busnes y cwmni? Gofalodd W. J. Parry nodi bod Lloyd George yntau'n awyddus am sicrhau gwasanaeth Beriah Gwynfe Evans ar gyfer y *Genedl*: 'the organ of Welsh Nationalism.' Cynigiwyd cyflog o £200 y flwyddyn iddo. Llyncodd yr abwyd:

**'Beriah is coming. He wants a house. Not in the middle of town. Must have five bedrooms. Look sharp',**

oedd neges llythyr W. J. Parry at gyfrifydd y cwmni yn Ionawr '91.

* * * *

MAE HANES y cwmni newydd yn un cythryblus iawn. Ar ôl cychwyn addawol — lansiwyd dau argraffiad o'r *Genedl* ym mis Chwefror — un ar gyfer y de a'r llall ar gyfer y gogledd, a chafwyd croeso mawr i erthyglau Lloyd George a Tom Ellis gan löwyr Morgannwg yn yr argraffiad newydd hwn — ond fe welwyd nad oedd pethau nemor gwell nag yn nyddiau'r hen gwmni —

**'Not much worse not much better'**

oedd disgrifiad W. J. Parry o hynt y fenter yn Ebrill '92.

Trafferthion ariannol, methu â chael rhai o'r hen fuddsoddwyr i ymuno â'r cwmni newydd, helyntion efo D. W. Davies a'i fusnes argraffu, yn fuan fe aeth pethau o ddrwg i ddrwg iawn iawn.

Ymhen tair blynedd yr oedd y cwmni'n chwilio am brif olygydd a rheolwr yn lle Beriah Gwynfe Evans, a dechreuwyd ail bobi'r hen bolisi, a hercian o un golygydd i un arall.

Bu newid ym mherchnogaeth y cwmni yn gynnar yn y ganrif newydd, ac yna, er gwaethaf pob darogan, fe gafwyd dau gyfnod ysblennydd yn hanes y papurau — yn ystod golygyddiaeth William Eames (1902-1908) ac E. Morgan Humphreys. A thrwy gydol yr amser fe aeth *Yr Herald Cymraeg* hithau o nerth i nerth.


# FFEIRIAU LLYFRAU GOGLEDD CYMRU

■

Cynhelir

Trydedd Ffair Lyfrau Flynyddol Wrecsam

Ddydd Sadwrn, 26 Medi, 1992

yn Neuadd y 'War Memorial Club', Wrecsam

rhwng 10 a.m. a 5 p.m.

■

Am fanylion pellach cysyllter â:
NICHOLAS ac EVA MOORE
(0829) 270382